

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: R. Llewelyn Jones **Ward:** Caergybi
Grŵp: Dim yn aelod o unrhyw grŵp

Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	* Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)
Apeliadau (Cadeirydd)	4 (100%)
Archwilio (Cadeirydd)	5 (100%)
Cyngor	13 (100%)
Gwasanaethau Democrataidd	4 (100%)
Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio <i>Yn Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Hydref 2013 ymlaen</i>	5
Panel Adolygu Tâl a Graddfeydd	Dim cyfarfodydd
Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	2 (50%)
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	3 (75%)
* Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 4 cyfarfod).
Y fi yw'r Eiriolydd ar gyfer Pobl Hŷn ar yr Ynys. Rwyf ar Fwrdd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf ar gorff Llywodraethol Ysgol y Parc ac ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Caergybi. Byddaf yn cynnal cymhorthfa pob bore dydd Gwener yn y Ganolfan Gymuned yn Newry lle gallaf gyfarfod â fy etholwyr ac ymweld â'r Ysgol Gynradd – rwyf wedi bod yn gwneud hyn ers 10 mlynedd a mwy.

Byddaf yn cynnal cymhorthfa yng Nghanolfan Gymuned Morawelon unwaith y mis – rhywbeth yr wyf wedi cychwyn ei wneud yn ddiweddar. Rwyf ar bwyllgor Neuadd Bentref Llaingoch.

Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd mewn ceisiadau cynllunio mawr yng Nghaergybi.

Rwyf wastad yn ymweld â thrigolion yn fy ward er mwyn ceisio eu helpu a'u cynghori ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y Cyngor - trefnais gyfarfod gyda thrigolion Lôn Llundain i roi gwybod iddynt am ddatblygiad tai mawr yn eu hardal. Byddaf yn ysgrifennu llythyrau niferus ar ran fy etholwyr.

Rwyf wedi cyfarfod gyda staff yng Nghartref Garreglwyd ar gyfer yr henoed i wrando ar eu pryderon ac i sôn amdanynt wrth y Cyfarwyddwr Cymuned.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel Eiriolydd y Cyngor ar gyfer yr henoed rwyf yn gallu mynd i amryfal ddigwyddiadau sy'n ymwneud â lles yr henoed ac i geisio eirioli ar eu rhan a sicrhau nad ydynt yn mynd yn angof. Mynychais nifer o gyfarfodydd gyda grwpiau lleol ar gyfer yr henoed.

Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):

Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cymorth Aelodau	Mai 2013
Yr Iaith Gymraeg/Diogelu Data/Y Wasg a'r Cyfryngau	Mai 2013
Hyfforddiant ar y Cofrestr o Ddiddordeb	Mai 2013
Sgiliau Cwestiyu Sgriwtini	Mehefin 2013
Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol	Mehefin 2013
Gweithdy Sgiliau Cadeirio Cyffredinol	Mehefin 2013
Gwneud mwy o Wahaniaeth mewn Sgriwtini	Mehefin 2013
Cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio	Gorffennaf 2013
Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr	Medi 2013
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydraddoldebau	Medi 2013
Hyfforddiant Adolygiadau Datblygiad Personol	Hydref 2013
Hyfforddiant PINS	Tachwedd 2013
Adolygu Effeithiolrwydd Archwilio	Ionawr 2014

Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd yn y ddarpariaeth addysgol yng Nghaerdybi ac mae ymgynghori'n mynd rhagddo ynghylch adeiladu ysgol gynradd newydd yn y dref.

Rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd lleol ynghylch datblygiadau mawr yn yr ardal gan gynnwys Traeth y Newry a Gwarchodfa Natur Penrhos.